**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FAWRTH 7fed, 2023**

**Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd) | Cyng. Ceri Jones |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Mark Davies |
| | Cyng. Llŷr Evans | Cyng. Carol Davies |
| | Cyng. Roger Davies | Cyng. Teifi Evans. |

Croesawyd Gavin Witte o Gyngor Sir Ceredigion ( Cydlynydd gwaith Ieuenctid Cymunedol.)

**Clerc** Cyng Sian Williams

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1 . Ymddiheuriadau | Y Clerc Rhian Jones, Cyng Sharon Thomas ynghŷd â'r Cyng.Rob Jones. | | |
| 2. Cyflwyniad gan Gydlynydd Gwaith Ieuenctid. | Cafwyd cyflwyniad gan Gavin Witte sydd yn gweithio yn bennaf gyda ieuenctid rhwng 11-16 a 16-25 mlwydd oed – y rhai sy'n ei chael yn annodd i barhau i fynych Ysgol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethaethau Cymdeithasol,Tân, Heddlu ac Ysgolion. Maent hefyd yn gweithio llawer i atal problemu cyffuriau.<br>Mae 3 clwb Ieuenctid yn y Sir, yn Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi, ac mae rhwng 20-30 yn mynychu pob clwb. Unwaith yr Wythnos mae'r clybiau hyn yn cael eu cynnal a hynny rhwng 3:30-6:30.<br>Maent yn cynnig tripiau hâf/pasg yn ddi dâl i lefydd fel Alton Towers, Big Pit, a Sain Ffagan.<br>Mae'r rhai sydd dros 16 ac heb addysg yn gweithio'n agos gyda colegau HCT i'w cynorthwyo i godi hyder ac mae cynnydd mawr yn y bobl yn y categori yma sy'n dioddef o Iechyd Meddwl. Mae eu sgiliau cyfathrebu yn isel hefyd.<br>Maent yn gyfrifol am wneud gwaith cymunedol trwy annog pobl ifanc i barchu eu cymunedau a chymysgu gyda phobl o wahanol oedran.<br>Nhw fu'n gyfrifol am brosiect 'Wildlife Park' a chreu wal ger Jewsons, Aberteifi. Hefyd 'Beach Cleans', HCT Aberystwyth, creu 6 mainc ar Llwybr yr arfordir.<br>Mae ganddynt fan fawr a ariannwyd gan arian y Loteri – 'Mobile Youth Club'. Ynddo mae X-Box a Wi-fi er mwyn cefnogi pobl gyda chwilio am Swyddi.<br>Hefyd mae yna olwyn car a 'beer-goggles' er mwyn hyrwyddo pobl am beryglon yfed a gyrru.<br>Mae angen cymorth, ond oriau anghyfleus. Maent yn cefnogi agor Clybiau Ieuenctid annibynnol yn Nhalybont, Llanddewi Brefi ac Aberporth.<br>Mae cais i gefnogi'r ardal gyda prosiect plannu potiau – trafod ar ôl Ebrill. | | |

| | |
|---|---|
| 3. Datgan Diddordeb. | DIM |
| 4. Cofnidion y Cyfarfod Diwethaf. | Cynigiodd Y Cyng Mark Davies fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Y Cyng Roger Davies. |
| 5.Materion yn Codi | DIM. |
| 6. Materion y Cynghorydd Sir | Mae cyllideb Cyngor Sir Ceredigion wedi eu drafod wythnos dwethaf.<br>Bydd 6% yn cael ei godi ar dreth y Cyngor.<br>Bydd 1.3% i'r Gwasanaethau tân ac achub = cynnydd o 7.3%, sy'n tua £8 y mis.<br>Mae arian cenedlaethol wedi lleihau er mwyn cadw gwasanaethau i fynd – ond bydd angen chwilio am yr arian o rhywle.<br>Mae cynlluniau gostyngiadau'r dreth cyngor ar gael.<br>Mae treth busnesau yn wahanol, mae'r buddiannau yma yn mynd yn syth i Westminster.<br>Ni fydd gwerth ardrethol yn codi, bydd y sir yn rhoi gwerthusiad, a bydd Rhyddhad busnesau bach yn lleihau a gall hyn achosi'r busnesau bach yma i ddioddef.<br><br>Mae'r Cyngor sir yn trafod grantiau ar gyfer tai sydd yn wag, lan i £25,000 er mwyn cael tai gwag nôl i ddefnydd. Er hyn rhaid i'r person fydd yn gwneud y cais fyw yno am 4 mlynedd. Codwyd y cwestiwn os fyddai'n rhaid talu punt am bunt. Byddai hyn yn unig i'r Tai gwag, nid ail gartrefi. |
| 7. Gohebiaeth | Bu Ymgynghoriad ynghlŷn ag adeiladu ysbyty newydd yn Hendŷ Gwyn ar Dâf/ San Clêr, ac mae'n bwysig i ni fel Cyngor Cymuned i ymateb gan ei fod yn effeithio arnom ni hefyd. Cynhelir sesiwn galw mewn yn Aberteifi, yn y Guild Hall, rhwng 2-7yp dydd Gwener y 10fed, neu yn yr Ivy Bush, Caerfyrddin rhwng 2-7yp ar yr 21ain. Gellir ymateb hefyd dros y Wê.<br><br>Bydd diwrnod agored i Fusnesau ' Tyfu, Diffino a Chyflawni gyda'n Gilydd' ar y 23ain yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod Wells.<br><br>Mae Ceredigion yn holi am farn am y cynllun Dementia – "Local Dementia Action Plan Engagement Events". Mae posteri i pob ardal.<br><br>Mae Ceredigion yn lawnsio cynllun o'r enw 'Spring Clean' i lanhau ymylon glaswellt yn ein hardaloedd. Mae angen codi proffeil yn lleol. Nododd Y Cyng Mark Davies – cael rhywun i gasglu sbwriel Pantyrefail, consyrn am sbwriel o gwmpas yr ardal. Mae yna Gasglwyr Sbwriel ar gael i'w casglu o'r llyfyrgell. Sbwriel mis Mawrth – Cadw'ch Cymru'n Daclus! |
| 8. Cynllunio | DIM y mis hwn.<br><br>( Codwyd ymwybyddiaeth o gonsyrn yn y gymuned o ran cynllunio'n gyffredinol.) |

9. Cyllid

Trafodwyd Cyflog y Clerc – bu cyfarfod is-bwyllgor yn dilyn cyfarfod y mis diwethaf. Gwaith ymchwil wedi bod gan Y Cyng Mark Davies o ran gwyliau.

Mae cytundeb y cyn-glerc wedi cael ei ail-wampio ar gyfer y Clerc Newydd.

Graddfa 'National Association of Local Council' –

Dyddiad Cychwyn 01/11/22, £12.06 yr awr pro rata.

Spinal column 9 – cynnwys mis er mwyn Awst fel gwyliau.

5 awr yr wythnos @ 52 wythnos = £3135.60 y flwyddyn.

- Mae angen danfon copi o'r contract i'r holl Gynghorwyr.
- Yswiriant a gweithio o adre – Hepgor geiriad 11.1 allan.
- Oriau Gwaith 5 awr yr wythnos, ond angen ychwanegu amser i wneud y cyfieithu.
- Yn deilwng o 21 diwrnod gwyliau Pro Rata -gan gynnwys Mis Awst.
- Risg, os fyddai salwch, dal yn talu. Angen ychwanegu Cofrestr Risg Ariannol.
- Optio allan o bensiwn – tystysgrif wedi ei dderbyn.
- Angen i Rhian Jones ac un Cynghorydd arall i arwyddo'r contract.
- Hanner awr yr wythnos i gyfieithu – 2 awr y mis.
  (Y Cyng Sian Williams wedi cynnig ac eiliwyd gan Y Cyng Teifi Evans.)
  Cytunodd Y Cyng Ceri Jones ar gytundeb y Clerc ac eiliwyd gan Y Cyng Carol Davies – ac roedd pawb oedd yn bresennol yn gytun.

  Diolchwyd i'r Cyng Mark Davies am ei waith ymchwil.

Cytunodd y Cynghorwyr oedd yn bresennol i ni dalu yr holl anfonebau.

Arwyddodd y Cyng Mark Davies a'r Cyng Ceri Jones y sieciau.

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau** - | HMRC - £43.40 | 001695 |
| | Cyflog y Clerc - £173.80 | 001696 |
| | Solution Factory £150.00 | 001697 |

10. Materion ardal.

**COEDYBRYN –** Cynhaliwyd 'Musicathon' yn ddiweddar a chodwyd £800 tuag at drychineb Twrci/Syria.

Mae angen archebu bocs De-fib newydd fel sydd ym mhentrefi Brongest, Penrhiwpal a Bwlchygroes. Angen Uwchraddio'r un presennol.

( Mae angen Bocsys De-fib wrth gefn ar gyfer Rhydlewis a Croeslan

hefyd, felly mae'r Cyng Mark Davies am ymchwilio am bris 3 bocs newydd wrth Galonnau Cymru).

Mae Y Cyng Roger Davies a'r Cyng Emyr Jones am wneud asesiad o'r arhosfan bws.

**FFOSTRASOL –** Mae 3 twll mawr yn y ffordd, un wrth sied Gari Morgan ac un wrth y siop ac un wrth y gyffordd sy'n arwain at Gastell Newydd Emlyn. (CLIC) SA44 4TE

Mae tipyn o faw cŵn yn broblem ar y llwybrau.

Mae angen gosod bocs De-fib newydd yn y Pentref.

**RHYDLEWIS –** Mae problem sbwriel ar y ffordd sy'n arwain o Benrhiwpal i Rhydlewis.

**BRONGEST -** Mae stone trap yn iawn a'r draeniau. Bu Mr.Barlow yn ymweld a 'r broblem llifogyddd yn Ffynnon Fair.

( <u>Potiau Blodau</u> – mae Ffrindau Ffostrasol a Choedybryn eisioes yn gofalu ar ôl y rhai sydd yno'n barod.)

- Mae yna risg o ran lleoliad y potiau wrth ochr y ffordd.
- Pa fath o botiau?
- Beth fydd y gost?

Mae Trefhedyn yn cynnig hanner bareli a chompost am £56 yr un.
Bydd angen rhai ar gyfer y 7 pentref.

Dwy hanner barel ym mhob pentref =14x£56 = £784.00p

Arian wedi rhoi naill ochr am y prosiect
£253 heb ei ddefnyddio ers 3 blynedd.
( Mae'r Cyng Ceri Jones yn fodlon casglu o Terefhedyn a'u dosbarthu).
£759
Clerc i archebu 2 gasgen i pob Pentref – 14 casgen i gyd.

Cynigiodd Y Cyng Teifi Evans ac eiliwyd gan Y Cyng Mark Davies.

| | |
|---|---|
| 11. Cyfarfod Nesaf. | Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 4ydd o Ebrill am 7:30yh yn neuadd bentref Coedybryn. |
| 12. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf. | Ymddiheuriadau<br>Datgan diddordeb<br>Cyflwyniad gan Prif weithredwr 'CAVO'<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Materion yn codi – Cytundeb Y Clerc.<br>Cadarnhau'r Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – taliadau<br>Materion ardal – Diweddariad am y boscys De-fib.<br>Materion talu am y Bocsys Blodau.<br>Y broblem sbwriel.<br>Agenda Cyfarfod Blynyddol<br>Cinio Blynyddol<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf. |